------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(266)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad a wnaed heddiw ynghylch buddsoddiad mewn tai cymdeithasol? EAQ(4)0331(CTP)

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Llysgenhadon Cyllid yr UE (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch y Strategaeth Dŵr (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Deddfwriaeth**

**Digartrefedd (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol (30 munud)**

**7 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Cynllunio (Cymru) (15 munud)**

**NDM5762 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Cynllunio (Cymru).

**Dogfennau Ategol**
Bil Cynllunio (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

**8 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (60 munud)**

**NDM5760 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bill Llywodraeth Leol (Cymru).

Gosodwyd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 26 Ionawr 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Bil Llywodraeth Loeol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 5 Mai 2015.

**Dogfennau Ategol**
Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**9 Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (5 munud)**

**NDM5761 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**10 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 20 Mai 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Mai 2015 i'w hateb ar 19 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i dreialu gau cyffordd 41 ar yr M4? OAQ(4)2278(FM)

**2. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â lefelau gordewdra yng Nghymru? OAQ(4)2283(FM)

**3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith ymadawiad posibl y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar economi Cymru? OAQ(4)2281(FM)**W**

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2286(FM)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o sut y bydd y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig yn effeithio ar Gymru? OAQ(4)2284(FM)

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dai cydweithredol? OAQ(4)2275(FM)

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd i gynyddu cynhyrchiant ledled Cymru? OAQ(4)2288(FM)

**8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â dyraniad grantiau trafnidiaeth i lywodraeth leol? OAQ(4)2292(FM)**W**

**9. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiannau creadigol? OAQ(4)2276(FM)**W**

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU yn dilyn etholiad cyffredinol y DU mewn perthynas â datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)2291(FM)**W**

**11. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o refferendwm arfaethedig Llywodraeth y DU ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)2274(FM)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn a fydd yn cymryd lle Twf Swyddi Cymru? OAQ(4)2279(FM)

**13. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddathlu a hyrwyddo canmlwyddiant geni'r awdur T. Llew Jones? OAQ(4)2273(FM)**W**

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Sut y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Plant Cymru o safon ragorol? OAQ(4)2287(FM)

**15. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar endyd cenedlaethol ar gyfer Cymraeg i oedolion? OAQ(4)2280(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 2 Mehefin 2015 a dydd Mercher 3 Mehefin 2015**
**Dydd Mawrth 9 Mehefin 2015 a dydd Mercher 10 Mehefin 2015**
**Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015 a dydd Mercher 17 Mehefin 2015**

---

**Dydd Mawrth 2 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar Blant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Cyflawni ein Hymrwymiad i Gyfiawnder Ieuenctid yn llwyddiannus (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y diweddaraf am y Gronfa Buddsoddi i Arbed (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad Cynnydd Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cydlyniant Cymunedol - Cynnydd a Heriau (30 munud)
- Y Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015 (15 munud)
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Cymwysterau Cymru (5 munud)

**Dydd Mercher 3 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 9 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru (180 munud)

**Dydd Mercher 10 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynnydd ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Blaenoriaethau Diogelwch Cymunedol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Gweithrediadau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i fynd i'r afael â thlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cymru i Addysgu Athrawon Yfory - opsiynau ar gyfer dyfodol Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyflawni newid ar gyfer Cymru drwy Bolisi Caffael (30 munud)

**Dydd Mercher 17 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth Safonau Ymddygiad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill a mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy)